# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0324(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Tachwedd 2007

**At Jonathan Morgan:**

Addewais ysgrifennu atoch ar ôl fy sesiwn Cwestiynau ar 16 Hydref ynghylch y sefyllfa statudol yn dilyn adroddiad Estyn a pha oblygiadau sydd ar yr awdurdod addysg lleol ac ysgolion i sicrhau bod unrhyw argymhellion a wnaed yn cael eu rhoi ar waith cyn yr arolygiad nesaf.

Mae pob adroddiad sy'n cael ei lunio yn sgil arolygiad yn nodi meysydd i'w gwella, ac yn unol ag adran 39 Deddf Addysg 2005 a'r gofynion a nodwyd yn Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006, mae'n ofynnol i bob ysgol, yn dilyn arolygiad gan Estyn, baratoi datganiad ysgrifenedig (Cynllun Gweithredu) cyn pen 45 diwrnod gwaith o'r dyddiad y bydd yr ysgol yn derbyn copi o'r adroddiad arolygu, yn amlinellu'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r prif feysydd lle nodwyd gwendidau.

Bydd y gwaith o roi'r cynllun gweithredu ar waith yn cael ei fonitro gan yr awdurdod addysg lleol ac Estyn.

Ysgolion unigol ddylai benderfynu sut i gyflwyno cynlluniau gweithredu gyda'u hyd yn dibynnu ar nifer y materion a godwyd yn ystod yr arolygiad a'u cymhlethdod. Dylai ysgolion sicrhau yr ymdrinnir yn llwyddiannus â'r holl faterion a godwyd yn yr adroddiad arolygu. Disgwylir y bydd cynllun gweithredu ysgol yn gwneud y canlynol:

- yn cyfrannu at y broses hunanwerthuso ac at gynllunio datblygiadau;
- yn cael ei ystyried yn ddogfen waith a fydd yn fodd i gyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol;
- yn mynd i'r afael â'r holl argymhellion a'r materion eraill a godwyd yn yr adroddiad arolygu;
- yn nodi camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â phob mater unigol;
- yn nodi blaenoriaethau, targedau ac amserlenni;
- yn nodi pwy fydd yn gyfrifol am gymryd pa gamau a hefyd yr amser, yr adnoddau a'r gefnogaeth a fydd yn ofynnol;
- yn pennu canlyniadau clir yn gysylltiedig â gwella safonau ac ansawdd y bydd modd mesur cynnydd yn eu herbyn;
- yn rhoi manylion ynghylch sut, pryd a phwy fydd yn gyfrifol am fonitro cynnydd;
- yn rhoi manylion ynghylch sut, pryd a phwy fydd yn gyfrifol am werthuso cynnydd.

Lle bydd Estyn yn penderfynu o ganlyniad i'w harolygiad y bydd angen cyflwyno mesurau arbennig mewn ysgol benodol, neu lle bo angen gwneud gwelliannau sylweddol, bydd angen nid yn unig i'r ysgol baratoi cynllun gweithredu yn amlinellu'r camau y bydd angen eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad ond hefyd i'r awdurdod lleol baratoi adroddiad ysgrifenedig yn nodi'r gefnogaeth y byddant hwy yn ei rhoi i'r ysgol er mwyn sicrhau y gwneir y gwelliannau gofynnol hyn. Bydd y cynllun gweithredu a'r datganiad ill dau yn cael eu hystyried gan Estyn. Bydd Estyn yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd i fonitro cynnydd yn erbyn eu cynllun gweithredu.

Sylwaf fod nifer o broblemau ynghylch yr adeiladau wedi'u nodi yn yr adroddiad arolygu yr oedd angen mynd i'r afael â hwy, o ddŵr yn dod i mewn i gyflwr gwael ystafelloedd y gellir eu datgymalu. Nodwyd hefyd mai un o'r prif gamau gweithredu ar gyfer yr ysgol oedd yr

angen i gydweithredu â'r awdurdod addysgol lleol er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd o ran yr adeiladau.

Mae pob awdurdod lleol yn derbyn dyraniadau grant cyfalaf sydd wedi'u neilltuo er mwyn gwella adeiladau ysgolion yn benodol drwy Grant Gwella Adeiladau Ysgolion Llywodraeth y Cynulliad. Y mae hyn yn ychwanegol at eu cyllid grant cyfalaf cyffredinol eu hunain sydd heb ei neilltuo. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio hefyd fenthyciadau darbodus a derbyniadau cyfalaf.

Yr awdurdod lleol sy'n penderfynu ar ei flaenoriaethau ar gyfer prosiectau cyfalaf i ysgolion yn unol ag anghenion a blaenoriaethau lleol. Byddwn yn annog yr ysgol i barhau i drafod ei hadroddiad a'i argymhellion gyda'r awdurdod.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0351(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Tachwedd 2007

**At Jonathan Morgan**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn sesiwn Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 16 Hydref 2007. Mae'n ddrwg gennyf am yr oedi cyn ateb. Mae iechyd meddwl yn un o flaenoriaethau uchaf Llywodraeth y Cynulliad ym maes iechyd. Rydym yn cydnabod bod therapi siarad yn gallu bod mor effeithiol â chyffuriau o ran mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl cyffredin ac rydym am weld cyflwyno rhagor o gyfloedd o'r fath. Yn nhargedau'r GIG yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd un o dargedau'r GIG wedi'i anelu at gynyddu nifer y therapïau seicolegol sydd ar gael, nid yn unig mewn meddygfeydd teulu ond o fewn gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol hefyd. O ganlyniad i bennu'r targed hwn, rydym yn gweithio gydag ymddiriedolaethau'r GIG ledled Cymru i wireddu uchelgais y targed hwn yn llawn.

Yn ogystal â cheisio cynyddu therapïau siarad un-ac-un, rydym wedi cyflwyno therapi ymddygiad gwybyddol yn genedlaethol ar ffurf llyfrau ac rydym hefyd yn archwilio dulliau o gyflwyno therapi ar ffurf grŵp a mathau eraill o therapi, er enghraifft, therapi ymddygiad gwybyddol cyfrifiadurol.

Rydym hefyd wedi ychwanegu elfennau newydd o wasanaethau i dimau iechyd meddwl cymunedol fel gwasanaeth datrys argyfyngau a gwasanaeth triniaeth yn y cartref. Mae hyn yn ein galluogi i ddefnyddio staff iechyd meddwl cymunedol sydd wedi'u hyfforddi ym maes therapi gwybyddol yn fwy effeithiol.

Ddiwedd y flwyddyn hon, byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Gweithredu i Hybu Iechyd Meddwl. Bydd yn cynnwys camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar wella lles iechyd meddwl pobl yn y gweithle. Mae hyn yn ogystal â'r cynlluniau llwyddiannus iawn i gynorthwyo pobl sydd wedi dioddef o broblemau iechyd meddwl i gadw eu swyddi ac i ddychwelyd i'r gwaith.